MBRRACE-UK

Mothers and Babies: Reducing Risk through Audits and Confidential Enquiries across the UK

MBRRACE-UK a'ch Cofnodion Iechyd

Beth ydy MBRRACE-UK?

MBRRACE-UK sy'n gyfrifol am raglen ymholiadau cyfrinachol y DU sy'n ymchwilio i'r materion canlynol:

- Pob mam sy'n marw yn ystod beichiogrwydd neu hyd at 12 mis ar ôl rhoi genedigaeth;
- Mamau sy'n cael salwch difrifol iawn neu gymhlethdodau gyda'u beichiogrwydd;
- Pob mam sy'n rhoi genedigaeth i blentyn marw-anedig;
- Pob mam a baban lle mae'r baban yn marw yn ystod y flwyddyn ar ôl cael ei eni;
- Babanod sy'n cael salwch difrifol iawn yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl cael eu geni.

Beth mae MBRRACE-UK yn ei wneud?

Mae MBRRACE-UK yn cyhoeddi adroddiadau ar gyfer darparwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd, sy'n awgrymu ffyrdd o wella'r gofal a roddir i famau a babanod.

Mae'n bwysig ein bod yn dysgu gwersi o ddigwyddiadau hapus a thrasig. Mae MBRRACE-UK yn casglu gwybodaeth pan fydd mamau a/neu fabanod wedi marw, neu wedi cael cymhlethdodau difrifol adeg y geni neu yn fuan wedyn.

Rydym hefyd yn defnyddio gwybodaeth am bob gwraig feichiog a'u babanod ledled y DU. Mae'r wybodaeth hon, y mae ei hangen at bwrpas cymharu, yn dod o'r broses cofrestru marw-enedigaethau a genedigaethau byw.

Mae'r holl wybodaeth a ddefnyddiwn yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol

Sut alla i gael rhagor o wybodaeth am MBRRACE-UK a'r Ymholiadau Cyfrinachol?

I gael rhagor o wybodaeth am MBRRACE-UK, gan gynnwys ein manylion cyswllt, ewch i'n gwefan:
www.npeu.ox.ac.uk/mbrrace-uk

Mae rhagor o wybodaeth ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth iechyd ar gael yn:
www.npeu.ox.ac.uk/mbrrace-uk/mothers-parents-families

Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth mae MBRRACE-UK yn ei defnyddio?

Rydym yn defnyddio'r canlynol:

- Gwybodaeth a chofnodion meddygol menywod a'u babanod lle cafwyd marwolaeth neu gymhlethdod difrifol
- Mae'n tîm yn gwneud yn siŵr fod y cofnodion meddygol a gawn yn gwbl ddienw gan gael gwared â manylion fel enw, cyfeiriad a dyddiad geni
- Mae'r cofnodion meddygol yn cael eu hasesu gan dîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac arbenigol; gelwir y broses hon yn 'ymholiad cyfrinachol' a'i bwrpas yw dysgu gwersi er mwyn gwella'r gofal i famau a babanod yn y dyfodol.
- Rydym hefyd yn defnyddio gwybodaeth ddienw am bob menyw feichiog er mwyn gwneud cymariaethau
- Nid yw'r adroddiadau a gyhoeddir yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai ddatgelu pwy ydy'r fam neu'r baban y cafodd eu cofnodion eu hadolygu.

A fydda i'n cael gwybod os bydd fy nghofnodion iechyd yn cael eu defnyddio gan MBRRACE-UK?

Mae mwy na 800,000 o fenywod yn cael babi yn y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Mae'n amhosibl i ni ofyn i bob menyw a allwn ddefnyddio'i gwybodaeth.

Oherwydd hyn, rydym wedi gwneud cais drwy'r Grŵp Cynghori ar Gyfrinachedd yn yr Awdurdod Ymchwil Iechyd am ganiatâd arbennig gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'n galluogi i ddefnyddio cofnodion iechyd heb orfod cael caniatâd y menywod dan sylw.

Ond, mae gan fenywod hawl i atal MBRRACE-UK rhag defnyddio'u gwybodaeth.

Os nad ydych am i wybodaeth amdanoch chi a/neu eich babi gael ei defnyddio gan MBRRACE-UK rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni drwy:

- ffonio ar: 01865 289715

neu

- anfon e-bost at: mbrrace-uk@npeu.ox.ac.uk

HQIP Healthcare Quality Improvement Partnership

Mae'r rhaglen Maternal, Newborn and Infant Clinical Outcome Review, a ddarperir gan MBRRACE-UK, yn cael ei chomisiynu gan HQIP (y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd) ar ran GIG Lloegr, GIG Cymru, adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth yr Alban, Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd Gogledd Iwerddon (DHSSPS), Jersey, Guernsey, ac Ynys Manaw.

HQIP Healthcare Quality Improvement Partnership · University of Leicester · NHS The Newcastle upon Tyne Hospitals NHS Foundation Trust · TIMMS · sands Saving babies' lives. Supporting bereaved families. · NHS Chelsea and Westminster Hospital NHS Foundation Trust · NPEU · Nuffield Department Women's & Reproductive Health · University of Oxford

Cymru a Lloegr f3 2026